# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

# Adroddiad Blynyddol 2023/24

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Rhagair gan Gadeirydd y Cyngor | 3 |
| 2. | Rolau a Swyddogaethau'r Cyngor | 4 |
| 3. | Aelodaeth y Cyngor 2023/24 | 7 |
| 4. | Gwaith y Cyngor yn ystod 2023-2024 | 8 |
| 5. | Blaenoriaethau ar gyfer y Dyfodol | 12 |
| 6. | Mynychu'r Cyngor / Cysylltu â ni | 13 |

# 1

# Rhagair gan Gadeirydd y Cyngor

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol Cyngor Cymuned Troedyraur. Mae'n cynnig trosolwg o waith y Cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

Cyfarfu y cyngor bob mis dan drefniant cylchdro yn neuaddau pentref Coed-y-bryn, Ffostrasol a Rhydlewis.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Cyngor, ynghyd â'r Clerc, am eu cymorth a'u cyfraniad trwy gydol y flwyddyn.

Cynghorydd Ceri Jones

2023/2024 Cadeirydd Cyngor Cymuned Troedyraur

# 2
# Rolau a Swyddogaethau Cyngor Cymuned Troedyraur

**Rôl y Cyngor**

**Gwaith a gyflawnir gan y Cyngor Cymuned**

Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi bod pob rhan o Gymru mewn cymuned. Yn Lloegr, defnyddir y term “Cynghorau Plwyf” o hyd, ond yng Nghymru, fodd bynnag, y term cyfreithiol a chyfansoddiadol am yr unedau hyn o weinyddiaeth llywodraeth leol yw “Cynghorau Cymuned”

Mae’r Cyngor Cymuned yn cynrychioli haen isaf llywodraeth leol, a hon yw’r haen sydd agosaf i’r cyhoedd o ran bodloni anghenion lleol. Mae gan y Cyngor sawl hawl a dyletswydd statudol.

Mae’r Cyngor Cymuned yn darparu cyllid ar gyfer nifer o glybiau a digwyddiadau lleol ac mae hefyd yn gwneud sylwadau am geisiadau cynllunio, y bydd Cyngor Sir Ceredigion yn gwneud penderfyniad amdanynt yn y pen draw.

**Beth yw strwythur y Cyngor?**

Nodir rhestr o’ch cynghorwyr lleol yn adran 3. Mae gan y Cyngor Cymuned 11 Cynghorydd. Fe’u hetholir bob 5 mlynedd. Cyflogir Clerc/Swyddog Ariannol Cyfrifol rhan-amser i ddelio â’r holl drefniadau ar gyfer cyfarfodydd ac am baratoi agenda i ddelio â’r cofnodion a’r materion ariannol a gweinyddol sy’n gysylltiedig â chyflawni gwaith y Cyngor. Cyflogir contractwyr hefyd i gyflawni gwaith arbenigol megis gwaith trwsio a chynnal a chadw.

## Sut mae'r Cyngor yn gweithio?

Cyflawnir unrhyw waith a wneir gan y Cyngor yn dilyn penderfyniadau a wneir mewn cyfarfodydd agored. Telir am unrhyw waith gan ddefnyddio arian cyhoeddus y mae'r Cyngor yn ei gael trwy godi praesept sy'n rhan o'r Dreth Gyngor a osodir gan Gyngor Sir Ceredigion.

## Beth yw praesept y Cyngor?

Yn 2023/24, pennwyd mai £12,000 yw praesept y Cyngor. Codir y praesept er mwyn talu am gyfrifoldebau'r Cyngor Cymuned megis cynnal a chadw diffibrilwyr, gwaith cynnal a chadw cyffredinol a chynnal llochesau bws a meinciau cymunedol ac ati, blodau yn ystod y gwanwyn a'r haf a chyfraniadau i fudiadau lleol.

Penderfynodd holl Gynghorwyr Cymuned Troedyraur ildio eu lwfans blynyddol am y flwyddyn 2023/24

## A yw'r cyhoedd yn gallu mynychu'r cyfarfodydd?

Mae croeso i aelodau'r cyhoedd fynychu ein cyfarfodydd. Nid oes ganddynt yr hawl i gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Cyngor na mynegi eu barn yn ystod y cyfarfod. Os bydd aelodau'r cyhoedd yn dymuno ychwanegu eitem i'r agenda neu wneud sylw/datganiad am eitem ar yr agenda, rhaid iddynt roi o leiaf 7 niwrnod o rybudd cyn y cyfarfod. Gall y Cadeirydd neilltuo ffenestr o 10 munud ar ddechrau'r cyfarfod ar gyfer unrhyw fater lle y gall y cyhoedd ymgysylltu.

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor bob mis, ac eithrio ym mis Awst, ac fel arfer, fe'u cynhelir ar nos Fawrth gyntaf bob mis yn Neuadd bentref Coed-y-bryn, Ffostrasol neu Rhydlewis.

## Cyfarfod Blynyddol

Mae'r cyfarfod blynyddol yn rhwymedigaeth gyfreithiol a nodir gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Rhaid cynnal y cyfarfodydd blynyddol yn ystod mis Mai. Bydd y Cyngor yn penderfynu ar y dyddiad. Rhaid mai'r eitem gyntaf ar yr agenda yw ethol Cadeirydd y Cyngor Cymuned ar gyfer y deuddeg mis nesaf.

## Etholiad

I gael eu hethol yn Gynghorydd, rhaid bod aelod yn gymwys dan y gyfraith, rhaid iddynt fod yn Ddinesydd Prydeinig ac mae'n rhaid eu bod yn 21 oed neu'n hŷn.

Yn ogystal-

- rhaid i'r ymgeisydd fod yn etholwr llywodraeth leol
- rhaid bod yr ymgeisydd wedi, yn ystod y deuddeg mis cyfan cyn y diwrnod hwnnw, meddiannu unrhyw dir neu eiddo arall yn yr un ardal fel perchennog neu denant
- rhaid bod prif weithle neu unig weithle yr ymgeisydd wedi bod yn yr ardal honno yn ystod y deuddeg mis cyn yr etholiad.
- rhaid bod yr ymgeisydd wedi bod yn byw am ddeuddeg mis cyfan yn yr ardal honno, neu o fewn tair milltir i'r ardal honno

# 3

# Aelodaeth y Cyngor

# 2023/2024

---

**Mae Cyngor Cymuned Troedyraur yn cynnwys 11 Cynghorydd**

- **Cynghorydd Ceri Jones (Cadeirydd) 2023-24**
- **Cynghorydd Roger Davies (Is-Gadeirydd)**
- **Cynghorydd Mark Davies**
- **Cynghorydd Carol Davies**
- **Cynghorydd Llŷr Evans**
- **Cynghorydd Teifi Evans**
- **Cynghorydd Emyr Jones**
- **Cynghorydd Rob Jones**
- **Cynghorydd Maldwyn Lewis**
- **Cynghorydd Sharon Thomas**
- **Cynghorydd Siân Williams**

# 4
# <u>Gwaith y Cyngor yn ystod 2023/2024</u>

**Dysglau Plannu Blodau**

Prynodd a gosododd y Cyngor Cymuned ddysglau plannu ym mhob pentref yn y plwyf, gan blannu blodau'r haf ynddynt. Plannwyd Bylbiau Cennin Pedr yn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn yn barod am y Gwanwyn.







**Profiad Hanfu**

Trefnodd merch 11 oed sy'n gweithio ar brosiect 'Celf ar gyfer lles' arddangosfa yn Neuadd Rhydlewis ym mis Mai. Roedd yr arddangosfa yn cynnwys celfyddyd o Japan, Tsieina a Corea, o arlwyo, trin gwallt a gwisgoedd. Cyfrannodd ein Cyngor trwy dalu am logi'r neuadd am y diwrnod.

**Trwsio Lloches Bws**
Gwnaethpwyd gwaith i drwsio lloches bws Coed-y-bryn gan bod yr hen do yn anniogel.



**Blychau Diffibrilwyr newydd**
Ar ôl i nifer o flychau hen yn ein Plwyf ddirywio a mynd i ollwng dŵr, cynigiwyd a chytunwyd disodli 3 o'n hen flychau diffibrilwyr.  Coed-y-bryn, Ffostrasol a Chroes-lan.







**Padiau/Batris Diffibrilwyr**
Disodlwyd holl badiau a batris y diffibrilwyr a'u diweddaru yn ôl yr angen.

**Bwcabus**
Ar ôl clywed y newyddion trist bod gwasanaeth bwcabus yn dod i ben, anfonwyd llythyr at ein AS lleol yn nodi pwysigrwydd y gwasanaeth hwn yn ein cymuned.  Yn ystod un o'n cyfarfodydd misol, ymunodd aelodau'r cyhoedd â ni i fynegi eu pryderon ynghylch colli gwasanaeth mor werthfawr.  Anfonwyd llythyr pellach i weld yr hyn y mae modd ei wneud i ddatrys y mater.

**Coed Nadolig**
Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, gosododd y Cyngor goed Nadolig yn ein Cymuned.  Eleni, prynwyd set ychwanegol o oleuadau solar ar gyfer pob coeden.



**Wifi neuadd Coed-y-bryn**
Cytunwyd helpu i dalu am y gwaith o osod wifi yn neuadd Coed-y-bryn. Coed-y-bryn yw un o 3 lleoliad ein cyfarfodydd Cymunedol, a bydd wifi yn hanfodol os ydym yn mynd i ddefnyddio technoleg i hwyluso cyfarfodydd hybrid yn y dyfodol.

**Meinciau cymunedol**
Mae 'Tîm Atal a Gwaith Ieuenctid Cymunedol' Ceredigion wedi bod yn garedig trwy roi 2 fainc bren i'w gosod yn ein Cymuned. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i neilltuo cartref newydd ar gyfer y meinciau.



**Rhaglen hyfforddiant**
Gweithredwyd cynllun hyfforddiant newydd i sicrhau bod yr holl gynghorwyr yn llwyr ymwybodol o'r prosesau a chyfrifoldebau aelodau'r cyngor.

**PCSO**
Mynychodd ein PCSO lleol rai o gyfarfodydd y Cyngor. Mae hyn yn fuddiol iawn wrth gynnal perthynas dda rhwng y Cyngor a'n cymuned.

**Ceisiadau Cynllunio**
Ystyrir Ceisiadau Cynllunio yn ystod pob cyfarfod ac anfonir sylwadau at y Gwasanaeth Cynllunio.

**Rhoddion Ariannol (Adran 137)**

- Aredig Cymru Gyfan
- Neuadd bentref Coed-y-bryn
- Sioe Amaethyddol Tivyside
- Profiad Hanfu

**5**

# Blaenoriaethau ar gyfer y Dyfodol

Mae’r meysydd blaenoriaeth a ystyrir gan Gyngor Cymuned Troedyraur yn ystod 2024/25 fel a ganlyn:-

- Prynu a gosod offer cynadledda hybrid newydd.
- Gwella Gwefan y Cyngor Cymuned
- Penderfynu ar leoliad 2 fainc Gymunedol a roddwyd
- Adfer bwrdd gwybodaeth ‘T Llew Jones’ yn neuadd Coed-y-bryn
- Sicrhau parhad a dilyniant gyda’n rhaglen Hyfforddiant
- Disodli hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned yn Ffostrasol
- Blychau halen ar gyfer ardaloedd yr effeithir arnynt
- Parhau’r ddeialog rhwng aelodau ein cymuned a chyrff eraill amrywiol.
- Cynorthwyo gyda gwaith cynnal a chadw Llwybrau troed a hawliau tramwy cyhoeddus yn ein Cymuned.

# 6

# Mynychu Cyngor Cymuned Troedyraur / Cysylltu â ni

## Mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Troedyraur

Mae Cyngor Cymuned Troedyraur yn agored i Aelodau’r cyhoedd fynychu eu cyfarfodydd misol.

Ac eithrio eitemau cyfrinachol, cynhelir yr holl weithgarwch yn gyhoeddus.

Cyhoeddir holl bapurau’r agenda gyhoeddus ar-lein 7 niwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

## Cysylltu â ni

Mrs Rhian Jones, (Clerc)
Derw Teifi,
Llys Derw,
Castellnewydd Emlyn,
Sir Gaerfyrddin.
SA38 9RA.

E-bost: - clerc@cctroedyraur.cymru

Gwefan: - http://www.cctroedyraur.cymru